



Defnyddio cyfrifiaduron a TG y coleg



Mae'r ddogfen hon wedi'i hysgrifennu gan **Goleg Caerdydd a'r Fro**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o'r 'Polisi Defnydd Derbyniol o TG'.

Ebrill 2022

Defnyddio cyfrifiaduron a TG y coleg

Mae'r rheolau hyn yn cwmpasu:



- ein holl offer TG, sy'n eiddo i Goleg Caerdydd a'r Fro neu'n cael ei logi gennyn ni



- pawb sy'n defnyddio ein hadnoddau TG yn y Coleg



- unrhyw ddyfais sydd wedi'i gysylltu â'n rhwydweithiau, gan gynnwys dyfeisiadau personol fel ffonau symudol.



Mae gyda ni'r hawl i wirio sut mae ein hoffer a'n rhwydweithiau'n cael eu defnyddio.



Mae staff a myfyrwyr yn gallu defnyddio ein rhwydweithiau a'n rhyngrwyd ar yr amod eu bod nhw'n dilyn ein rheolau.



Efallai y bydd cost i ddefnyddio rhai o'n gwasanaethau. Os nad ydych chi'n talu, efallai y byddwn ni'n eich atal rhag defnyddio rhai gwasanaethau. Neu'n dal dyfarniadau yn ôl.

Yr hyn dydyn ni ddim yn ei ganiatáu



Mae rhaid i ddefnyddwyr beidio ag achosi unrhyw ddifrod i'n hoffer neu feddalwedd. Neu'r lleoedd maen nhw'n cael eu cadw.



Mae'r term 'difrod' yn cynnwys unrhyw newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r offer neu'r feddalwedd. Efallai na fydd hyn yn achosi niwed ond bydd angen amser neu arian i adfer pethau.



Mae'n bosib y byddwn ni'n gofyn i unrhyw berson sy'n achosi difrod dalu'r costau i drwsio neu adnewyddu'r offer neu'r feddalwedd.

Dydy ein rhwydwaith a'n gwasanaethau rhyngrwyd ddim yn gallu cael eu defnyddio ar gyfer:



- Gwneud neu rannu unrhyw beth sy'n achosi gofid neu'n sarhaus. Gan gynnwys delweddau neu wybodaeth,



- Gwneud neu rannu pethau sy'n debygol o achosi llawer o straen neu ddiacter i rai pobl,



- Gwneud neu rannu unrhyw beth a fydd yn niweidiol i'r ffordd y mae person yn cael ei weld gan bobl eraill,




- Rhannu pethau sy'n torri deddfau hawlfraint. Mae'r gyfraith hon yn atal pobl rhag gallu copïo gwaith pobl eraill yn annheg,



- Cysylltu unrhyw ddyfais heb ganiatâd. Cysylltwch â'r Pennaeth TG am hyn,



- Rhannu neu recordio cyfrineiriau neu fanylion mewngofnodi pobl,



- Rhannu hysbysebion diangen. Dydy hyn ddim yn cynnwys hysbysebion sydd eisoes mewn gwefannau rydych chi'n eu defnyddio,



- Defnyddio unrhyw ran o'r rhwydwaith neu wasanaethau'r coleg dydych chi ddim yn cael eu defnyddio.

**Pan fyddwch chi'n defnyddio ein
rhwydwaith neu ein gwasanaethau
rhyngwryd, mae rhaid i chi beidio â:**



- Dinistrio neu ddifrodi gwaith neu wybodaeth pobl eraill,



- Torri preifatrwydd pobl eraill,



- Defnyddio ein gwasanaethau TG mewn ffordd sy'n atal pobl eraill rhag eu defnyddio. Er enghraifft, drwy orlwytho'r system,



- Defnyddio rhaglenni cyfrifiadurol sy'n gallu achosi niwed. Er enghraifft, firws cyfrifiadurol,



- Osgoi'r rhaglenni a'r camau rydyn ni wedi'u cymryd i gadw ein rhwydwaith yn ddiogel.



Os ydych chi'n defnyddio ein rhwydwaith neu ein gwasanaethau rhyngrwyd ni i ddefnyddio rhwydwaith arall, mae rhaid i chi ddilyn rheolau'r rhwydwaith hwnnw hefyd.



Ddylech chi ddim defnyddio ein gwasanaethau TG ar gyfer unrhyw beth heblaw eich gwaith coleg neu eich astudiaethau. Oni bai bod gyda chi ganiatâd gan y coleg.

Beth fydd yn digwydd os bydd rhywun yn torri'r rheolau



Efallai na fydd y person yn cael defnyddio ein gwasanaethau TG mwyach.



Os yw'r person wedi torri unrhyw ddeddfau, mae'n bosib y byddwn ni'n cymryd camau pellach.



Efallai y bydd y coleg yn cymryd **camau disgyblu ffurfiol** – dyma'r ffordd benodol y byddwn ni'n delio â materion difrifol.

Cyfrifoldebau



Mae rhaid i'r holl staff ddilyn y rheolau hyn ac adrodd unrhyw faterion i'w rheolwr.



Mae rhaid i bob dysgwr ddilyn y rheolau hyn ac adrodd unrhyw broblemau i'w tiwtor.



Mae rhaid i staff a dysgwyr wneud yn siŵr eu bod nhw'n mynd i unrhyw hyfforddiant am y rheolau hyn.

Deddfau a chanllawiau pwysig mae rhaid i ni feddwl amdany'n nhw:



Mae defnyddio TG yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro yn golygu bod rhaid i ni ddilyn y deddfau hyn:



- Deddf Diogelu Data 2018
- Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 a rheoliadau mwy newydd
- Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990 a Rheoliadau Colegau Lleol.